# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau - Y Bumed Senedd

Lleoliad:

**Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Ionawr 2020

Amser: 09.00 - 10.44

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5907

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Janet Finch-Saunders AS (Cadeirydd)<br>Jack Sargeant AS<br>Leanne Wood AS |
| Tystion: | Kirsty Williams AS<br>Claire Bennett, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru<br>Megan Colley, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Ross Davies (Dirprwy Glerc)<br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Sian Hughes (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Michelle Brown a Neil McEvoy.

# 2 Deisebau newydd

## 2.1 P-05-921 Hysbysiad cynharach ynghylch cyllidebau cynghorau gan Lywodraeth Cymru #AchubEinGwasanaethau

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf. Cytunodd yr Aelodau i ddiolch i'r deisebwyr am godi'r mater hwn trwy'r broses ddeisebau ond y dylid cau'r ddeiseb gan nad oes llawer y gall y Pwyllgor ei wneud yn hyn o beth, o ystyried mai amseriad Etholiad Cyffredinol y DU oedd achos yr oedi eleni ac o gofio'r ffaith i'r gyllideb ddrafft a'r setliad llywodraeth leol dros dro gael eu cyhoeddi ar 16 Rhagfyr.

## 2.2 P-05-925 Addysgu Llesiant Mislifol mewn Ysgolion: Peidio â Gadael Cymru Tu Ôl

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i ysgrifennu yn ôl at y Gweinidog Addysg i ofyn a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried ychwanegu cyfeiriad penodol at lesiant mislifol yn natganiad Yr Hyn sy'n Bwysig ar iechyd a llesiant corfforol, fel y'i cynigiwyd gan Endometriosis UK.

## 2.3 P-05-926 Dylid Darparu Adran Blinder Cronig yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am:

- wybodaeth am aelodaeth, cylch gwaith a rhaglen y grŵp llywio, gan gynnwys trosolwg o sut mae cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu nodi; ac
- ymateb Llywodraeth Cymru i feirniadaeth Dr Charles Shepherd ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau yn y GIG yng Nghymru.

## 2.4 P-05-927 Cyfleusterau toiled Changing Places

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn gofyn iddi roi amserlenni ar gyfer ystyried cyngor ynghylch yr opsiynau ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth o doiledau Changing Places, a gwybodaeth am y cyfleoedd a'r meini prawf ar gyfer cael cyllid i ddatblygu cyfleusterau newydd.

### 2.5 P-05-928 Cael gwared ar y geiriau sy'n hyrwyddo adfer adnoddau olew a nwy o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i gau'r ddeiseb am ei bod yn ymddangos nad oes llawer mwy y gallai'r ddeiseb ei chyflawni yng ngoleuni'r diwygiadau a wnaed i'r amcan olew a nwy yn y fersiwn o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru a fabwysiadwyd, a'r ffaith bod Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi nodi'r bwriad i osgoi echdynnu tanwydd ffosil yn ardal drwydded ar y tir Cymru. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ddiolch i'r deisebydd am ddefnyddio'r broses ddeisebau.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-05-839 Dylid troi canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ynghylch llygredd aer yn gyfraith yng Nghymru a chyflwyno Deddf Aer Glân newydd i Gymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn gofyn am ragor o wybodaeth am sut y mae'n bwriadu troi canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd yn gyfraith yng Nghymru, fel y'i nodir yn y Cynllun Aer Glân drafft, ac yn gofyn ynghylch y potensial i gyflymu'r amserlen er mwyn cyflwyno deddfwriaeth ar lygredd aer yn ystod y Cynulliad hwn.

### 3.2 P-05-842 Rhowch lais i bobl ifanc yn y broses o gomisiynu gwasanaethau lleol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach a chytunodd ei bod yn ymddangos nad oes llawer pellach y gallai ei chyflawni ar hyn o bryd, o ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi diystyru cyflwyno dyletswyddau newydd. Oherwydd hynny, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebwyr am ei chyflwyno.

### 3.3 P-05-856 Rhaid gwahardd gwerthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb ochr yn ochr â P-05-915 Galwad am well gorfodaeth o ffermydd cŵn bach yng Nghymru a chytunwyd i aros am gyhoeddiad pellach gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch y camau a gymerir yn dilyn

yr adolygiad o reoliadau bridio cŵn, cyn ystyried a ddylid cymryd unrhyw gamau pellach o ran y deisebau.

### 3.4 P-05-915 Galwad am well gorfodaeth o ffermydd cŵn bach yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb ochr yn ochr â P-05-856 Rhaid gwahardd gwerthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol yng Nghymru a chytunwyd i aros am gyhoeddiad pellach gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch y camau a gymerir yn dilyn yr adolygiad o reoliadau bridio cŵn, cyn ystyried a ddylid cymryd unrhyw gamau pellach o ran y deisebau.

### 3.5 P-05-869 Datgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targedau di-garbon ym mhob polisi

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach a chytunodd i gadw golwg ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar gynnydd o ran newid hinsawdd, cyn ystyried a all gymryd unrhyw gamau pellach.

### 3.6 P-05-877 Cynllun gwisgoedd ysgol ail-law i blant

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach a chytunodd i aros am farn y deisebydd ynghylch ymateb y Gweinidog Addysg a'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru.

## 4 Papur i'w nodi

### 4.1 P-05-797 Sicrhau mynediad i'r feddyginiaeth ffibrosis systig, Orkambi, fel mater o frys

Nodwyd y papur.

## 5 Sesiwn dystiolaeth:

### 5.1 Sesiwn dystiolaeth: P-05-862 Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Addysg a chytunodd i dderbyn ei chynnig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith i weithredu Hawliau, Parch,

Cydraddoldeb, sef y canllawiau gwrth-fwlio newydd, yn dilyn ymarfer monitro yn y gwanwyn.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ofyn am sylwadau bellach gan Gomisiynydd Plant Cymru a'r deisebydd ar ôl cyhoeddi'r canllawiau.

### 5.2 Sesiwn dystiolaeth: P-05-757 Cael gwared ar y rhwymedigaeth ar ysgolion i gynnal gweithredoedd addoli crefyddol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon ochr yn ochr â P-05-765 Cadw canllawiau presennol ar gyfer Gwasanaethau Crefyddol.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Addysg, a chan fod y Gweinidog yn glir na fydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â gwaith pellach ar y mater hwn yn ystod y Cynulliad presennol, fe gytunwyd nad oes llawer mwy y gellir ei gyflawni ar hyn o bryd. Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb, gan ddiolch i'r deisebwyr am ddefnyddio'r broses ddeisebau.

### 5.3 Sesiwn dystiolaeth: P-05-765 Cadw canllawiau presennol ar gyfer Gwasanaethau Crefyddol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon ochr yn ochr â P-05-757 Cael gwared ar y rhwymedigaeth ar ysgolion i gynnal gweithredoedd addoli crefyddol.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Addysg, a chan fod y Gweinidog yn glir na fydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â gwaith pellach ar y mater hwn yn ystod y Cynulliad presennol, fe gytunwyd nad oes llawer mwy y gellir ei gyflawni ar hyn o bryd. Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb, gan ddiolch i'r deisebwyr am ddefnyddio'r broses ddeisebau.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Trafod sesiynau tystiolaeth blaenorol

## 8 Trafod yr Adroddiad Drafft

### 8.1 Trafod yr Adroddiad Drafft: P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai

Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad a'r argymhellion.

### 8.2 Ymateb Llywodraeth Cymru - P-05-916 Cyllid digonol i ddiogelu lles anifeiliaid fferm yn lladd-dai Cymru

Cytunodd y Pwyllgor i gynnwys y ddeiseb hon mewn adroddiad ar ddeiseb P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai.

## 9 Ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar P-05-736 Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Mwy Hygyrch

Trafododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor a chytunwyd i aros am i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Law yn Llaw at Iechyd Meddwl - cynllun cyflawni 2019 i 2022 cyn penderfynu ar eu camau nesaf.

## 10 Papur i'w nodi: Llythyr gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad a chytunwyd i drafod ymateb drafft yn y cyfarfod nesaf.